

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu
DYDDIAD:	Mawrth yr 22^{ain} 2023
LLEOLIAD:	Hybrid
TEITL:	Adroddiad ynglŷn â Diwygiadau i'r Polisi Chwythu'r Chwiban
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Diwygio'r Polisi Chwythu'r Chwiban
RHESWM PAM BOD Y PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:	Ni ofynnwyd amdani
CEFNDIR:	

Cyflwynwyd adroddiad ynglŷn â diwygiadau i'r Polisi Chwythu'r Chwiban ddiwethaf i'r pwyllgor hwn ar [Fai'r 16^{eg} 2018](#). Cymeradwywyd y diwygiadau hyn gan y Cabinet ar [Fehefin y 19^{eg} 2018](#).

Sefyllfa ar hyn o bryd:

Mae'r Polisi Chwythu'r Chwiban hwn wedi'i adolygu ac mae diwygiadau wedi'u gwneud i sicrhau bod y polisi'n gyfredol.

Mae diwygiadau allweddol i'r polisi fel a ganlyn:

- Wedi ychwanegu 'pryderon diogelu' at y rhestr o faterion y ceir rhoi gwybod amdanynt fel pryderon chwythu'r chwiban.
- Wedi ychwanegu canllawiau ychwanegol gan Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio y gellir rhoi gwybod am bryderon sy'n ymwneud â defnydd yr awdurdod o bwerau ymchwilio neu unrhyw fater sy'n dod o fewn arolygiaeth Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio o dan y polisi.
- Wedi ychwanegu canllawiau ychwanegol ynglŷn â rhoi gwybod am bryderon diogelu a chyfeiriad at 'Bolisi a Chanllawiau ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion mewn Perygl'.
- Diweddarwyd manylion cyswllt ar gyfer swyddogion perthnasol a phersonau a chyrrff penodedig.
- Diweddarwyd hyperddolenni i ddogfennau a gwefannau canllaw.
- Diweddarwyd cyfrifoldebau'r Swyddog Monitro.
- Mân newidiadau eraill i drefniadaeth a geiriad i wella darllenadwyedd.

Dangosir yr holl ddiwygiadau i'r Polisi Chwythu'r Chwiban mewn newidiadau wedi'u marcio yn **Atodiad 1**.

A oes Aseiad Effaith Integredig Nac oes
wedi'i gwblhau?
Os nad oes, dywedwch pam

**LLESIANT CENEDLAETHAU'R
DYFODOL:**

Crynodeb: Nid yw'r adroddiad hwn yn cynrychioli newid i bolisi
na strategaeth.

Hirdymor:

Integreiddio:

Cydweithio:

Cynnwys:

Atal:

ARGYMHELLIAD:

Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r diwygiadau i'r Polisi Chwythu'r Chwiban fel y'u dangosir yn
Atodiad 1.

RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD:

Sicrhau bod y Polisi Chwythu'r Chwiban yn gyfredol ac yn parhau i fod yn addas i'r diben.

Enw Cyswllt:

Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyfreithiol a
Llywodraethu (a'r Swyddog Monitro)

Swydd:

Cyfreithiol a Llywodraethu

Dyddiad yr Adroddiad:

02/02/2023